
# Adroddiad CATS

## Cathod a'u Hystadegau 2023



CATS PROTECTION

# Cynnwys


4 Methodoleg
7 Croeso

## 8 | Sefyllfa'r genedl

8 Y boblogaeth gathod[1]
9 Cyfran y perchnogion cathod fesul gwlad yn y DU
10 Proffil y perchnogion cathod

## 12 | Y Farchnad Gathod

13 Pa fath o gathod sydd gan bobl?
13 Cathod pedigri o'u cymharu â chathod bridiau pur

## 14 | Gofal milfeddygol

14 Capasiti milfeddygol
15 Cofrestru â milfeddyg
16 Ymweliadau â milfeddyg
18 Yswiriant
19 Brechiadau
20 Trin parasitiaid
20 Trin llyngyr
20 Diogelu cyfrifol yn erbyn parasitiaid
21 Ysbaddu a bridio
22 Microsglodynnu
24 Cyflyrau iechyd ac anafiadau
24 Diet a phwysau'r corff
25 Methu fforddio'r milfeddyg?

## 28 | Gofal, lles ac ymddygiad cathod

28 Ffynonellau gwybodaeth am ofal cathod
32 Amgylchedd cathod
32 Cathod sy'n byw dan do o'u cymharu â chathod awyr agored
34 Cathod yn y nos
34 Atal cathod rhag niwed
35 Byw gydag anifeiliaid anwes eraill
38 Tân gwyllt
39 A yw costau byw cynyddol yn achosi i gathod fod o dan fwy o straen?

## 40 | Cwmnïaeth a heriau perchenogaeth

40 Pam mae pobl yn cael cathod[41]
43 Helpu'r rhai mwyaf agored i niwed
44 Cost barhaus cathod
45 Helpu i leihau'r baich

## 46 | CATS yng Nghymru, crynodeb

## 48 | Ble rydym ni'n mynd o fan hyn? Neges gan John May, Y Prif Weithredwr

## 49 | Gwasanaethau

# Methodoleg

Am y bedwaredd flwyddyn yn olynol, rydym wedi comisiynu asiantaeth allanol ac annibynnol, Basis Research, i wneud y gwaith ymchwil sy'n rhan o Adroddiad CATS Cymru 2023.

Cynhaliwyd arolwg ar-lein i gasglu gwybodaeth ymysg cynulleidfa sy'n gynrychioladol yn genedlaethol o oedolion dros 18 oed, yng Nghymru ac ym mhob rhan o'r DU, gan ein galluogi i amcangyfrif cyfran y perchnogion cathod. Gwnaethom hefyd gynnal arolwg manylach ymysg perchnogion cathod. Cynhaliwyd yr arolwg rhwng 27 Chwefror 2023 ac 13 Ebrill 2023. Mae 'yn ystod y 12 mis diwethaf' yn yr adroddiad yn cyfeirio at y cyfnod o amser rhwng Mawrth 2022 a Mawrth 2023. Oni bai y nodir yn wahanol, mae data cymharol yn yr arolwg hwn yn defnyddio data o Adroddiad CATS Cymru 2022.

Roedd y gwaith ymchwil yn cynnwys sampl oedd yn cynrychioli poblogaeth y DU o 3,500 o unigolion a hwb o 6,829 o berchnogion cathod, gan gynnwys hwb rhanbarthol er mwyn sicrhau cynrychiolaeth briodol yn yr ardaloedd hyn. Ar y cyfan, fe wnaeth 10,392 o bobl gymryd rhan yn yr arolwg, gan gynnwys 827 o berchnogion cathod yng Nghymru.

## Cyflwyno'r data

Rydym yn gweithio gyda Basis Research er mwyn cyfrifo amcangyfrifon o'r boblogaeth gathod yn flynyddol. Defnyddir tair ffynhonnell ddata yn y cyfrifiad hwn:

- panel arolwg ar-lein sy'n cynrychioli'r genedl i bennu canran yr aelwydydd yn y DU sy'n berchen ar gath (n=3,500)
- data o'r arolwg o berchnogion cathod ar nifer y cathod y mae pob aelwyd yn berchen arni
- data gan y Swyddfa Ystadegau Gwladol (ONS) ar nifer yr aelwydydd

Drwy gydol yr adroddiad, mae'r canrannau wedi'u talgrynnu i'r rhif cyfan agosaf. Mae ffigurau eraill, megis amcangyfrifon o'r gyfran o gathod yn y boblogaeth, wedi'u talgrynnu i ddau ffigur ystyrlon. Wrth gyfrifo amcangyfrifon cathod, rydym wedi defnyddio cyfanswm y ffigur amcangyfrifiedig o'r boblogaeth o gathod ac wedi'i luosi gyda'r canran cyfan, e.e. nid yw 10% o'r holl gathod wedi'u cofrestru gyda milfeddyg, sydd gyfwerth ag 1.1 miliwn o gathod. Mae'r ystadegau a chyfrifiadau'r boblogaeth yn amcangyfrifon ar sail ymatebion perchnogion i'r arolwg ar-lein. Cynhelir profion arwyddocâd ar gyfwng hyder 99% a 95%. Pan fydd canfyddiad yn cael ei nodi'n arwyddocaol yn yr adroddiad, ystyrir ei fod yn arwyddocaol ar gyfwng hyder 95%. Oherwydd talgrynnu, bydd adegau yn yr adroddiad pan nid yw'r cyfrifiadau canran yn adio i 100%.

Cael cath: Drwy gydol yr adroddiad hwn byddwn yn edrych ar y niferoedd o gathod a gafodd eu perchnogi yn ddiweddar, yn enwedig yn ystod y 12 mis diwethaf o gymharu â chyfnod arall, e.e. dros flwyddyn yn ôl. Mae'r data yn dod o'r cwestiwn 'Pryd wnaethoch chi gael cath?' yn Arolwg Ymchwil CATS 2023.

Sampl sy'n cynrychioli'r genedl: Y boblogaeth sydd o ddiddordeb i ni yw poblogaeth gyfan y DU. Roedd y sampl sy'n cynrychioli'r genedl yn adlewyrchu ei strwythur, gan gynnwys rhywedd, oedran, grwpiau economaidd-gymdeithasol a rhanbarthau.

Mae rhagor o wybodaeth ar gael ar gais.





# Mae Cats Protection yn falch iawn o gyflwyno Adroddiad CATS 2023 Cymru – yr arolwg mwyaf cynhwysfawr o berchnogion cathod yng Nghymru.

Mae deall perchnogaeth cathod yn hanfodol er mwyn deall bywydau cathod yng Nghymru. Efallai fod pandemig COVID-19 flwyddyn arall y tu ôl i ni, ond mae'r argyfwng costau byw yn parhau, gyda llawer o berchnogion yn wynebu anawsterau ariannol. Nod Adroddiad CATS 2023 yw hysbysu a chefnogi'r rheini sy'n chwarae rhan allweddol yn y gwaith o sicrhau a hyrwyddo bywyd da i gathod.

Mae cathod yn dal i fod yn anifail anwes poblogaidd ac mae tystiolaeth gref o fanteision mawr perchnogaeth cathod, gyda nifer cynyddol yn cyfeirio at gwmnïaeth a lleihau unigrwydd a straen fel y rheswm pam maen nhw'n dewis bod yn berchen ar gath. Mae 29% o aelwydydd yn berchen ar y 620,000 o gathod anwes yng Nghymru, ac mae bron pob un o'r rhain yn ystyried eu cath yn rhan o'r teulu.

Mae'r argyfwng costau byw yn effeithio ar berchnogaeth cathod mewn gwahanol ffyrdd. Eleni, ni allai mwy o berchnogion fforddio i ysbaddu eu cathod, a gwelsom hefyd fwy o dorllwythi heb eu cynllunio – tuedd rydym ni'n poeni y bydd yn parhau. Mae Cats Protection wedi ehangu ei gymorth ysbaddu, drwy gynnig rhaglen ysbaddu genedlaethol newydd sy'n derbyn cymhorthdal.

Rydym hefyd yn dechrau gweld yr argyfwng costau byw yn effeithio ar allu perchnogion i gyrchu gofal milfeddygol. Dyma'r flwyddyn gyntaf y mae perchnogion yn adrodd mai cost yw'r rhwystr mwyaf i weld milfeddyg. Mae heriau o ran capasiti milfeddygol, a oedd yn rhwystr sylweddol mewn blynyddoedd blaenorol i fynediad at ofal milfeddygol, yn dangos rhai arwyddion o welliant.

Fodd bynnag, mae problemau gyda chapasiti milfeddygol yn dal i fodoli, yn enwedig mewn ardaloedd trefol. Mae Cats Protection yn gweithio gyda'r proffesiwn milfeddygol i archwilio sut y gall gefnogi milfeddygon a pherchnogion i wynebu'r heriau hyn.

Mae'n galonogol gweld cynnydd bach yng nghyfraddau'r cathod sy'n cael eu microsglodynnu yng Nghymru. Efallai fod y sylw cynyddol i osod microsglodion, yn dilyn y cyhoeddiad y bydd yn orfodol i gathod yn Lloegr, yn cael effaith ganlyniadol gadarnhaol. Fodd bynnag, mae'n dal yn destun pryder nad yw cynifer â 180,000 o gathod anwes yng Nghymru wedi cael eu microsglodynnu; a dyna pam mae Cats Protection yn parhau i alw ar Lywodraeth Cymru i gyflwyno microsglodynnu gorfodol ar gathod anwes yng Nghymru cyn gynted â phosibl.

Rydym hefyd yn parhau i weld newidiadau yn y ffordd y mae pobl yn cael gafael ar gathod a'r mathau o gathod y maent yn eu caffael. Mae'r newid parhaus tuag at ffafriaeth i brynu cathod yn her i elusennau lles anifeiliaid, gan fod llai o gathod yn cael eu mabwysiadu. Gall hefyd achosi problemau fel smyglo cathod bach ac arferion bridio gwael sy'n cael effaith niweidiol ar les cathod. Mae Cats Protection yn galw ar y llywodraeth i gyflwyno mwy o amddiffyniadau yn y meysydd hyn.

Mae Cats Protection yma i helpu pobl i weld y byd drwy lygaid cathod. Rydym yn gobeithio helpu i gyflawni hyn drwy wella ein dealltwriaeth o gathod a'r bobl sy'n gofalu amdanynt, a thrwy hynny wella bywydau pob cath.


**Kit Sturgess VetMB, PhD, DSAM, FRCVS**
**Cadeirydd yr Ymddiriedolwyr, Cats Protection**



# Sefyllfa'r genedl

## Y boblogaeth gathod[1]

Mae **29%** o gartrefi yng Nghymru yn berchen ar gath



(28% yn 2022)

Bellach, mae tua

**620,000 o gathod ym mherchnogaeth**

yng Nghymru (560,000 yn 2022)

Mae **nifer cyfartalog y cathod fesul aelwyd wedi cynyddu yng Nghymru i 1.7 cath (1.5 yn 2022)** – y mwyaf o'r holl genhedloedd datganoledig a'r DU drwyddi draw. Mae gan 60% o aelwydydd Cymru sy'n berchen ar gath, un cath, ac mae 40% yn berchen ar ddwy neu fwy o gathod, sy'n golygu bod aelwydydd aml-gath yn fwy cyffredin yng Nghymru o gymharu â'r DU drwyddi draw (DU: 33%).


1 Cwestiynau a ofynnwyd: Oes gennych chi gath(od) (yn byw gyda chi)? / Faint o gathod sydd gennych chi yn eich aelwyd?

Enghraifft o gyfrifiad: 26% yn berchen ar gath yn y DU x 28.1m o aelwydydd yn y DU* x yn berchen ar 1.5 o gathod ar gyfartaledd = 11m o gathod ym mherchnogaeth ledled y DU.

*Ffynhonnell: www.ons.gov.uk/peoplepopulationandcommunity/birthsdeathsandmarriages/families/datasets/familiesandhouseholds

# Cyfran y perchnogion cathod fesul gwlad yn y DU[1]

Mae lefelau perchnogaeth cathod yn amrywio ar draws y DU, o 21% o aelwydydd yng Ngogledd Iwerddon sy'n berchen ar un neu fwy o gathod, i 29% o aelwydydd yng Nghymru, heb unrhyw newidiadau ystadegol arwyddocaol o ffigurau'r llynedd.





**Poblogaeth y cathod ym mherchnogaeth**

| | Mewn miliynau | | % yr aelwydydd sy'n berchen ar gathod | |
|---|---|---|---|---|
| | 2022 | 2023 | 2022 | 2023 |
| Cyfanswm y DU | 11 | **11** | 26% | **26%** |
| Cymru | 0.6 | **0.6** | 28% | **29%** |
| Lloegr | 9.2 | **9.2** | 26% | **26%** |
| Yr Alban | 0.9 | **0.8** | 24% | **22%** |
| Gogledd Iwerddon | 0.3 | **0.2** | 26% | **21%** |

# Proffil y perchnogion cathod[2]


**Oedran perchnogion cathod yng Nghymru o gymharu ag aelwydydd Cymru**




Mae perchnogion cathod Cymru yn llai tebygol o fod dros 65 oed o'u cymharu â'r boblogaeth gyffredinol, ac mae'r rheini sydd wedi caffael cath yn ystod y 12 mis diwethaf yn tueddu i fod yn iau na phroffil cyffredinol perchnogion cathod.


2 Cwestiynau a ofynnwyd: Oes gennych chi gath(od) (sy'n byw gyda chi) ar hyn o bryd? / Faint o gathod sy'n byw yn eich aelwyd? / Pryd gawsoch chi (e.e. prynu/mabwysiadu) eich cath?

**Perchnogion cathod Cymru yn ôl oedran**





**Rhywedd a pherchnogion cathod**

**35%** o fenywod yng Nghymru yn berchen ar gath



(33% yn 2022)

**20%** o ddynion yng Nghymru yn berchen ar gath



(25% yn 2022)

**Statws preswylio a pherchnogion cathod**[3]

**32%**

o breswylwyr mewn **ardaloedd trefol** yn berchen ar gath

**18%**

o drigolion **ardaloedd gwledig** yn berchen ar gath

**24%**

o'r rheini sy'n **rhentu cartref** yng Nghymru yn berchen ar gath

**41%**

o'r rheini sy'n **berchen ar gartref** yng Nghymru yn berchen ar gath

3 Cwestiynau a ofynnwyd: Gan feddwl am eich prif gartref (ble rydych chi'n byw rhan fwyaf yr amser), pa un o'r canlynol sy'n disgrifio ei leoliad orau? / Gan feddwl am eich prif gartref, beth yw'r sefyllfa o ran perchnogaeth?

# Y Farchnad Gathod

**Sut cafodd y cathod eu caffael (pob cath ym mhoblogaeth bresennol cathod Cymru)[4]**

Wedi'u prynu*: **25%**
(23% yn 2022, 21% yn 2021)

Wedi'u mabwysiadu o ganolfan achub / ail-gartrefu / lloches anifeiliaid yn y DU: **21%**
(26% yn 2022 a 2021)

Wedi'u mabwysiadu gan gymydog / ffrind / teulu: **21%**
(20% yn 2022, 19% yn 2021)

Wedi'u canfod fel cathod crwydr a'u mabwysiadu: **10%**
(8% in 2022, 10% in 2021)

Cath fach cath oedd eisoes yn rhan o'r aelwyd: **6%**
(6% yn 2022, 7% yn 2021)

Other source: **17%**

Prynwyd 12% o boblogaeth bresennol cathod Cymru yn ystod y 12 mis diwethaf, sy'n cyfateb i bron i 74,000 o gathod (73,000 yn 2022).

**Mae hyn yn cyfateb i boblogaeth cyfredol cathod anwes Cymru, lle:**

**Prynwyd oddeutu 160,000***

**Mabwysiadwyd oddeutu 130,000 o lochesi / canolfannau ailgartrefu / canolfannau achub anifeiliaid yn y DU**

**Cymerwyd oddeutu 190,000 i mewn**

Mae Cymru wedi gweld gostyngiad o 5% yng nghyfran y cathod sydd wedi cael eu mabwysiadu rhwng 2022 ac eleni. Prynwyd traean (33%) o'r cathod a gaffaelwyd yn ystod y 12 mis diwethaf yng Nghymru, a dim ond 14% gafodd eu mabwysiadu o wasanaeth achub neu loches yn y DU.

4 Cwestiynau a ofynnwyd: O ble y cawsoch chi / mabwysiadoch chi eich cath? / Pryd y gwnaethoch chi gaffael (e.e. prynu / mabwysiadu) eich cath? Nid yw'n cynnwys y rhai a ddywedodd eu bod wedi prynu eu cath ond heb dalu amdani.


Cafodd yr 17% o'r cathod sy'n weddill eu caffael yn un o'r ffyrdd canlynol: anrheg, fy nghath wnaeth fy mabwysiadu i (e.e. dechrau dod i gael bwyd ac wedi aros), rhywun nad oeddwn i'n ei adnabod yn ei chynnig am ddim i mi, arall.

*Wedi'i phrynu gan fridiwr arbenigol yn y DU, wedi'i phrynu gan rywun rydw i'n ei adnabod sydd ddim yn fridiwr arbenigol, wedi'i phrynu gan gymydog / ffrind / aelod o'r teulu, wedi'i phrynu o siop anifeiliaid anwes, wedi'i phrynu gan fridiwr arbenigol o dramor.

**Wedi'i chymryd oddi ar gymydog / ffrind / teulu neu wedi dod o hyd iddi fel cath grwydr a'i mabwysiadu.

# Pa fath o gathod sydd gan bobl?[5]

**Canran y bridiau o gathod a gaffaelwyd yng Nghymru**




## Cathod pedigri o'u cymharu â chathod bridiau pur

**Cathod bridiau pur**: brîd penodol o gath a grëwyd trwy fridio penodol, ac mae'r ddau riant yr un brîd.

**Cathod traws-frîd**: Brîd o gath a grëwyd trwy fridio gyda bridiau gwahanol, er enghraifft, dwy gath brîd pur gwahanol neu gath brîd pur a chath nad yw'n frîd pur / cath brîd cymysg.

**Cathod pedigri**: Cath brîd pur neu gath traws-frîd sydd wedi cofrestru gyda chorff llywodraethu, ac mae cofnod o'i llinach ar gael.

**Cathod brîd cymysg**: Brîd o gath sy'n cael ei gynhyrchu drwy fridio anetholus, ac nad yw'r gath yn frîd pur nac yn draws-frîd.

Yn yr adroddiad hwn, mae cathod pedigri a chathod bridiau pur wedi'u cynnwys yn y disgrifiad 'cathod pedigri', gyda chathod bridiau pur yn cael eu galw yn 'cathod pedigri heb waith papur' lle bo'n berthnasol.

5 Cwestiynau a ofynnwyd: Pa frid yw eich cath? / Pryd y cawsoch chi (e.e. prynu / mabwysiadu) eich cath?

# Gofal milfeddygol

## Capasiti milfeddygol[6]

Mae'n ymddangos bod y problemau o ran capasiti milfeddygol wedi gwella ychydig ers y llynedd, gyda Chymru'n gweld gwelliant mwy o gymharu â'r DU drwyddi draw (DU: 30%, 37% yn 2022). Fodd bynnag, mae llawer o berchnogion cathod yng Nghymru yn dal i ddweud eu bod wedi cael trafferth cael gafael ar filfeddyg yn ystod y 12 mis diwethaf.

### Dywedodd 27% o'r holl berchnogion cathod yng Nghymru eu bod wedi cael trafferth cael gafael ar filfeddyg (42% yn 2022)

**O'r perchnogion hynny a oedd wedi cael trafferth cael gafael ar filfeddyg, dyma'r prif resymau**

Y milfeddyg yn rhy brysur

**36%**

Gostyngiad o ran y gwasanaeth yn arwain at oedi o ran trefnu llawdriniaeth

**26%**

Gostyngiad o ran oriau agor y milfeddyg

**23%**



6 Cwestiynau a ofynnwyd: Gan feddwl am eich milfeddyg, ydych chi wedi profi unrhyw rai o'r canlynol dros y 12 mis diwethaf o ran eich cath? / Pa un o'r canlynol sy'n disgrifio orau pa mor aml rydych chi'n tueddu i fynd at y milfeddyg?

Gall aros yn hirach am wasanaethau milfeddygol, fel ysbaddu a brechiadau, gynyddu'r risg i iechyd a lles cathod, gan bwysleisio pwysigrwydd archebu'n gynnar ar gyfer triniaethau arferol neu driniaethau nad ydynt yn rhai brys.

Bu gwaith mewnweledol diweddar gan Cats Protection yn ymchwilio'n ddyfnach i bryderon cyfredol ynghylch capasiti milfeddygol, gan ganfod mai prinder staff yw un o'r prif resymau pam mae milfeddygon yn ei chael hi'n anodd ateb y galw. Dywedodd 40% o'r gweithwyr milfeddygol proffesiynol a ymatebodd i'r arolwg fod ganddynt swyddi gwag sydd heb eu llenwi am dros chwe mis[7].

"Yn Arolwg Capasiti Milfeddygol diweddar Cats Protection, nododd dros hanner y milfeddygon a arolygwyd naill ai ostyngiad presennol neu ddisgwyliedig mewn capasiti, gydag anawsterau o ran recriwtio a chynnydd mewn anifeiliaid anwes yn cael eu cofrestru yn ystod 2022 yn cael eu nodi fel ffactorau sy'n cyfrannu. Dywedodd milfeddygon a holwyd fod hyn yn effeithio ar restrau aros ar gyfer llawdriniaethau arferol a dewisol, anawsterau o ran delio ag achosion brys, a heriau wrth gofrestru cleientiaid newydd.

"Mae mynediad at ofal milfeddygol yn hanfodol i waith elusennau fel Cats Protection, ac mae'r gweithlu milfeddygol yn allweddol i sicrhau lles cathod. Ar hyn o bryd, mae Cats Protection yn edrych ar ffyrdd o gefnogi'r proffesiwn milfeddygol yn ystod y cyfnod heriol hwn."



**Dr Alison Richards MRCVS,**
**Pennaeth Gwasanaethau Clinigol,**
**Cats Protection**

# Cofrestru â milfeddyg[8]

**Nid yw 9% o gathod yng Nghymru wedi'u cofrestru gyda milfeddyg**

**Uwch ar gyfer:**

**Gathod sy'n byw yn yr awyr agored yn unig – 44%**

**Gathod heb yswiriant – 15%**


Mae cyfran y cathod yng Nghymru sydd wedi'u cofrestru â milfeddyg wedi cynyddu ychydig, o 87% yn 2022 i 91%.


Mae'n peri pryder nad yw cyfran mor uchel o gathod sy'n byw yn yr awyr agored wedi'u cofrestru â milfeddyg yng Nghymru – sy'n llawer uwch na'r DU drwyddi draw (27%) – gan fod eu ffordd o fyw yn eu rhoi mewn mwy o berygl o drawma neu anaf a allai fod angen triniaeth frys.

7 Gwaith Maes Arolwg Capasiti Milfeddygol Cats Protection: Tachwedd 2022 – Mehefin 2023. Sampl: Gofynnwyd i 236 o weithwyr proffesiynol ym maes milfeddygaeth yn y DU, gan gynnwys milfeddygon a nyrsys milfeddygol, am eu profiadau yn ystod y 12 mis blaenorol.

8 Cwestiwn a ofynnwyd: A yw eich cath wedi'i chofrestru gyda milfeddyg?

# Ymweliadau â milfeddyg[9]




Nid yw cyfran uwch o gathod yng Nghymru yn ymweld â'r milfeddyg fel mater o drefn bob blwyddyn, o gymharu â'r DU drwyddi draw (45% o gymharu â 39%). Mae hyn yn golygu nad yw 280,000 o gathod yng Nghymru yn cael mynediad at archwiliadau iechyd rheolaidd. Mae hyn o bosibl oherwydd bod y gost yn rhwystr.

Mae ymweliadau rheolaidd nid yn unig yn sicrhau bod cathod yn cael gofal iechyd ataliol, ond hefyd yn rhoi cyfleoedd i ganfod problemau iechyd cyn eu bod yn amlwg i'r perchennog. Mae hyn yn hwyluso ymyriadau cynharach, gan wella lles cathod a chanlyniadau cyffredinol. Mae ymyriadau cynnar yn aml yn golygu arbed costau yn y tymor hir hefyd, drwy helpu i osgoi'r driniaeth fwy helaeth sydd ei hangen pan fydd rhai cyflyrau'n symud ymlaen i fod yn fwy difrifol.

Ond i rai perchnogion cathod yng Nghymru, nid yw ymweliadau afreolaidd â'r milfeddyg o reidrwydd o ddewis – mae 55% yn dweud nad ydynt yn ymweld â'r milfeddyg mor aml ag y byddent yn dymuno. Mae hyn i lawr o 61% yn 2022, ond mae'n dal i gynrychioli llawer o berchnogion cathod yng Nghymru[10]. Mae straen ymweliadau â'r milfeddyg (ar gyfer cathod a'u perchnogion) yn parhau i fod yn rhwystr cyffredin, ond am y tro cyntaf, y gost o ymweld â'r milfeddyg oedd y prif reswm pam nad yw perchnogion yn mynd mor aml ag yr hoffent[10].

9 Cwestiwn a ofynnwyd: Pa un o'r canlynol sy'n disgrifio orau pa mor aml rydych chi'n tueddu i fynd at y milfeddyg?

10 Cwestiwn a ofynnwyd: Pa rai o'r canlynol, os o gwbl, sy'n eich atal rhag mynd â'ch cath at y milfeddyg mor aml ag yr hoffech chi?

**Prif resymau dros beidio ag ymweld â'r milfeddyg cymaint ag y byddai'r perchennog yn ei hoffi[10]**

Y gost

29%

(20% yn 2022)

Mae'n achosi gormod o straen i mi / fy nghath*

24%

(24% yn 2022)

Gyda'r cynnydd yn nifer y clinigau 'cathod yn unig' a 'chyfeillgar i gathod' achrededig, bydd y ffigurau ar gyfer straen cathod yn atal ymweliadau â'r milfeddyg, gobeithio, yn parhau i ostwng.

*nifer net yr ymatebion sy'n ymwneud â'r themâu hyn

"Er ei bod yn hysbys bod straen yn ffactor pwysig sy'n effeithio ar ymweliadau â'r clinig, mae gwneud newidiadau bach fel trefnu apwyntiadau'n briodol a gwahanu cathod a chŵn yn yr ystafell aros yn helpu i leihau straen i gathod a'u gofalwyr. Mae addysgu gofalwyr am hyfforddiant cludo cathod a theithio hefyd yn chwarae rhan bwysig ac yn helpu i leihau straen cyn cyrraedd y clinig."

**Sarah Collins RVN, Rheolwr Nyrsio ISFM, International Cat Care**






# Yswiriant[11]

Mae 42% o berchnogion cathod Cymru wedi yswirio eu cathod, o gymharu â 38% y llynedd. Er bod y cynnydd hwn yn dda, mae Cymru'n dal ar ei hôl hi o gymharu â'r DU drwyddi draw, lle mae 48% o berchnogion cathod wedi yswirio eu cathod

**Perchnogion yng Nghymru sydd wedi yswirio eu cathod, yn ôl gradd economaidd-gymdeithasol:**




Mae'r tebygolrwydd y bydd cath yn cael ei hyswirio yn gostwng gyda gradd economaidd-gymdeithasol ei pherchennog, sy'n awgrymu bod fforddiadwyedd yswiriant yn ffactor sylweddol ac yn debygol o eithrio'r rhai a fyddai'n elwa fwyaf ohono, pe bai cath yn mynd yn sâl neu'n cael ei hanafu.

Mae'r tebygolrwydd y bydd cath yn cael ei hyswirio hefyd yn lleihau os yw ei pherchennog yn hŷn.

**Perchnogion yng Nghymru sydd wedi yswirio eu cathod, yn ôl oed y perchennog:**




11 Cwestiwn a ofynnwyd: Oes gennych chi yswiriant anifeiliaid anwes ar gyfer eich cath?

# Brechiadau[12]

Mae'n bwysig pwysleisio bod y data isod yn cael ei adrodd gan berchennog; efallai nad yw perchnogion yn ymwybodol o ba frechiadau sydd eu hangen a pha mor aml, ond serch hynny mae'r data'n rhoi cipolwg defnyddiol ar ganfyddiadau perchnogion.

**Statws brechu cathod Cymru, yn ôl eu perchnogion**




Mae cyfran y perchnogion o Gymru sy'n dweud bod brechiadau eu cathod yn gyfredol ac yn briodol i'w hoedran wedi aros yn sefydlog (69% yn 2022). Fodd bynnag, mae'r ffigurau hyn yn golygu efallai nad yw hyd at 190,000 o gathod yng Nghymru wedi'u hamddiffyn rhag clefydau y gellir eu hatal drwy frechu.

Mae cyfraddau brechu cathod Cymru ar gyfer aelwydydd aml-gath yn is na'r boblogaeth gyffredinol o gathod, er eu bod o bosibl mewn mwy o berygl o glefyd heintus oherwydd mwy o gyswllt â chathod eraill.

Mae cathod iau hefyd yn llai tebygol o fod wedi cael unrhyw frechiadau o gwbl (0-6 mis: 27%, 7-11 mis: 10%). Er y gallai rhai o'r cathod yn y grŵp oedran 0-6 mis fod yn rhy ifanc ar gyfer y brechiad cyntaf, mae hyn yn dal i adael llawer o gathod iau yng Nghymru a allai fod yn agored i glefydau sy'n cyfyngu ar fywyd ac sy'n gostus neu'n anodd eu trin, fel firws lewcemia cathod (FeLV) a ffliw cathod.

12 Cwestiwn a ofynnwyd: A yw eich cath wedi cael yr holl frechiadau cyfredol (h.y. wedi cael y brechiadau atgyfnerthu fel sy'n berthnasol i oedran y gath)? Statws brechu cathod, yn ôl eu perchnogion.

# Trin parasitiaid[13]

Dywedodd dros ddwy ran o dair o berchnogion cathod Cymru eu bod yn amddiffyn eu cathod rhag chwain (68%) a llyngyr (65%) drwy gydol y flwyddyn, mor aml ag yr argymhellir gan eu milfeddyg neu'r cynnyrch y maent yn ei ddefnyddio. Mae hyn yn gynnydd ar ffigurau Cymru'r llynedd (60% ar gyfer chwain a 61% ar gyfer llyngyr) ac yn uwch na ffigurau'r DU eleni (chwain: 64%, llyngyr: 61%).

## Trin chwain

Mae cathod awyr agored yn unig yng Nghymru bron i hanner yr un mor debygol o gael eu trin am chwain yn rheolaidd o gymharu â phob cath (33%), ac mae 13% o berchnogion cathod Cymru ond yn rhoi triniaeth chwain i'w cathod pan fydd chwain yn bresennol. Fodd bynnag, gall y dull hwn arwain at oblygiadau negyddol. Mae arwyddion o chwain yn aml yn deillio o gathod yn cael eu llidio gan frathiadau a gall chwain drosglwyddo clefydau fel Bartonella a llyngyr rhuban. Fel arfer, mae yna hefyd faich amgylcheddol sylweddol o gyfnodau oes chwain anaeddfed ar ôl i chwain gael eu sefydlu yn y cartref.

Fodd bynnag, bydd cathod sydd â ffyrdd penodol o fyw mewn perygl llawer is o gael eu hamlygu i chwain. Felly, dylid gwerthuso pob cath ar sail risg-budd o ran amlder y driniaeth, a dylai milfeddygon addysgu perchnogion am y protocol triniaeth gorau.

## Trin llyngyr

Dim ond pan fyddant yn credu bod llyngyr yn bresennol y mae 15% o berchnogion Cymru yn trin eu cathod, sy'n peri pryder, gan nad yw llawer o gathod yn dangos unrhyw arwyddion o lyngyr pan fyddant wedi'u heintio, er eu bod yn lledaenu wyau heintus i'r amgylchedd drwy eu carthion. Gall rhai rhywogaethau o wyau llyngyr, fel Toxocara cati, heintio pobl, gyda'r risg o glefydau difrifol posibl ar gyfer plant ifanc, yr henoed a'r rheini sydd ag imiwnedd gwan.

Mae ffordd o fyw a deiet yn dylanwadu ar risg cath o gael ei heintio â llyngyr, a dylai amlder triniaeth fod yn seiliedig ar y ffactorau hyn, yn hytrach na chwilio am arwyddion o lyngyr (oni bai eich bod yn cynnal cyfrifiad wyau llyngyr).

13 Cwestiynau a ofynnwyd: Pa mor aml ydych chi'n tueddu i amddiffyn eich cath rhag chwain? / Pa mor aml ydych chi'n rhoi triniaeth llyngyr i'ch cath?

## Diogelu cyfrifol yn erbyn parasitiaid

Mae pryder cynyddol y gallai rhai o'r parasitleiddiaid a ddefnyddir yn gyffredin ar gyfer anifeiliaid anwes fod yn halogi'r amgylchedd. Gan fod parasitleiddiaid yn niweidiol i ystod eang o drychfilod, a bod hyd yn oed dognau bach o bosibl yn effeithio ar niferoedd mawr, gallai hyn fod yn niweidiol iawn i fywyd gwyllt ac ecosystemau ac, yn ei dro, i iechyd y cyhoedd.

Fodd bynnag, mae diogelu ein hanifeiliaid anwes rhag effeithiau niweidiol parasitiaid yn bwysig, felly argymhellir dull 'risg unigol', o dan arweiniad cyrff arbenigol sy'n seiliedig ar dystiolaeth, fel yr European Scientific Counsel for Companion Animal Parasites (ESCCAP).


**www.esccapuk.org.uk/guidelines-uk/**

"Dylai gweithwyr proffesiynol milfeddygol bob amser fabwysiadu dull sy'n seiliedig ar risg wrth ragnodi meddyginiaethau, gan gynnwys parasitleiddiaid. Dylent osgoi triniaeth gyffredinol, ac yn hytrach dylent asesu'r risg o ddefnyddio parasitleiddiaid ar gyfer anifeiliaid unigol, gan ystyried risgiau iechyd anifeiliaid, dynol ac amgylcheddol, yn ogystal â ffactorau ffordd o fyw."

**Polisi 'Defnydd cyfrifol o barasitleiddiaid ar gyfer cathod a chŵn', Cymdeithas Milfeddygon Prydain**

# Ysbaddu a bridio[14]

Mae cyfran y cathod sydd wedi cael eu hysbaddu yng Nghymru wedi cynyddu ers y llynedd (80%) ac mae'n uwch na'r DU drwyddi draw (85%).




## Cathod Cymru sy'n llai tebygol o fod wedi cael eu hysbaddu

Mae perchnogion cathod iau, rhwng 18 a 34 oed, yn llai tebygol o fod wedi ysbaddu eu cathod (83%), o gymharu â 91% o bobl rhwng 35 a 54 oed, a 96% o'r rheini dros 55 oed. Mae cathod sy'n byw dan do hefyd yn llai tebygol o gael eu hysbaddu (86%) o gymharu â'r rheini sydd â mynediad i'r awyr agored (92%). Mae'r rheini sy'n byw mewn ardaloedd trefol canolog hefyd yn llai tebygol o fod wedi ysbaddu eu cathod (84%), a allai fod yn gysylltiedig â'r ffaith bod mwy o gathod sy'n byw dan do yn yr ardaloedd hyn.

**Y prif resymau pam mae perchnogion cathod o Gymru yn dewis peidio ag ysbaddu eu cathod[15]**

Nid wyf yn gallu fforddio ysbaddu fy nghath

**18%** (13% yn 2022)

Dwi wedi bwriadu gwneud, ond heb gael cyfle eto

**16%** (10% yn 2022)

Nid yw fy nghath yn mynd y tu allan


**15%** (19% yn 2022)

14 Cwestiwn a ofynnwyd: A yw eich cath wedi'i hysbaddu?

15 Cwestiwn a ofynnwyd: Beth yw'r rhesymau dros beidio ag ysbaddu eich cath? Wedi'i hidlo yn ôl perchnogion cathod sydd heb gael eu hysbaddu. Dim ond yr ymatebion dros 10% sy'n cael eu dangos.

# Microsglodynnu[16]

**Cathod sydd wedi'u microsglodynnu yng Nghymru**




**71% wedi cael eu microsglodynnu**

**25% heb gael eu microsglodynnu**

**4%: mae'r perchnogion yn ansicr a yw eu cathod wedi'u microsglodynnu ai peidio**

Mae cynnydd bach wedi bod yn nifer y cathod sydd wedi'u microsglodynnu yng Nghymru, o 66% yn 2022. Fodd bynnag, **mae hyn yn dal i olygu bod hyd at oddeutu 180,000 o gathod o bosibl heb ficrosglodyn yng Nghymru**, gan leihau eu siawns o gael eu haduno â'u perchnogion, pe baent yn cael eu colli neu eu dwyn.

## Y cathod sy'n llai tebygol o gael eu microsglodynnu

Mae cathod gyda pherchnogion iau yn llai tebygol o gael eu microsglodynnu, gyda dim ond 58% o berchnogion 18-24 oed yng Nghymru yn berchen ar gathod sydd wedi'u microsglodynnu. Roedd cyfran uwch o berchnogion cathod yn y grŵp oedran hwn hefyd yn ansicr a oedd eu cathod wedi'u microsglodynnu (11%), o gymharu â grwpiau oedran eraill. Yn ogystal, mae gwahaniaeth sylweddol rhwng cyfraddau microsglodynnu cathod a gaffaelwyd yng Nghymru yn ystod y flwyddyn ddiwethaf (57%) a'r rhai a gaffaelwyd dros flwyddyn yn ôl (74%).



"Mae microsglodynnu gorfodol yn hanfodol i sicrhau bod cathod yn cael eu haduno â'u perchnogion, yn yr un ffordd ag y mae'n hanfodol i sicrhau diogelwch cŵn. Gall microsglodynnu aduno cathod coll gyda'u perchnogion ac mae'n lleihau'r tebygolrwydd y bydd cath yn cael ei hailgartrefu'n ddiangen. Mae Cats Protection yn croesawu ymrwymiad Llywodraeth Cymru i ystyried cyflwyno microsglodynnu gorfodol yng Nghynllun Lles Anifeiliaid Cymru ac mae'n gobeithio y caiff deddfwriaeth ei chyflwyno'n gynt, yn hytrach nag yn hwyrach, er budd cathod Cymru a'u perchnogion."

**Madison Rogers, Pennaeth Eiriolaeth, Ymgyrchoedd a Chysylltiadau Llywodraeth, Cats Protection**

16 Cwestiwn a ofynnwyd: Oes gan eich cath ficrosglodyn?

**Y prif resymau pam mae perchnogion cathod Cymru yn dewis peidio â microsglodynnu eu cathod**[17]

Dwi heb feddwl am ficrosglodynnu fy nghath

**21%**

Nid yw fy nghath yn mynd y tu allan

**20%**

Nid yw fy nghath yn crwydro / yn mynd yn bell

**14%**

Mae cyfran y perchnogion cathod nad oeddent wedi meddwl am ficrosglodynnu eu cathod yn sylweddol uwch ymysg perchnogion Cymru o gymharu â'r DU drwyddi draw (14%). Mae hyn yn awgrymu y gallai fod cyfle penodol yng Nghymru i addysgu pobl am bwysigrwydd a manteision microsglodynnu – yn enwedig gan y bydd Cymru'n debygol o ddilyn newidiadau deddfwriaethol newydd yn Lloegr sydd wedi gwneud microsglodynnu yn orfodol i gathod.

Gellir dadlau bod cathod sy'n byw dan do hefyd mewn mwy o berygl o fynd ar goll, pe baent yn cael eu hunain y tu allan mewn amgylchiadau anghyfarwydd, felly mae'n destun pryder mai 'nid yw fy nghath yn mynd y tu allan' yw un o'r prif resymau pam mae perchnogion o Gymru yn dewis peidio â microsglodyn eu cathod. Fodd bynnag, mae'r ffigur hwn yn is na chyfartaledd y DU drwyddi draw (27%).

**Microsglodion a chadw manylion yn gyfredol**[18]

## Mae manylion 91% o gathod yng Nghymru sydd â microsglodyn yn gyfredol

**(88% yn 2022)**

Nac ydw: 4%

Ddim yn gwybod: 5%

**O'r rheini sy'n dweud bod manylion microsglodyn eu cath yn gyfredol:**

Mae **85%** yn dweud bod eu rhif ffôn yn gyfredol

Mae **86%** yn dweud bod eu cyfeiriad presennol yn gyfredol

Mae **75%** yn dweud bod eu cyfeiriad e-bost yn gyfredol

Nid yw **5%** yn siŵr pa fanylion penodol sydd wedi'u diweddaru

Mae mwy o berchnogion o Gymru na'r llynedd yn dweud bod manylion microsglodion eu cathod yn gyfredol, ond mae hyn yn dal i adael llawer o gathod gyda microsglodion sydd wedi dyddio, a allai olygu bod eu microsglodion yn ddiwerth, pe baent yn cael eu gwahanu oddi wrth eu teulu.

17 Cwestiwn a ofynnwyd: Pa un o'r isod sy'n disgrifio orau'r rhesymau pam nad yw eich cath wedi cael microsglodyn?

18 Cwestiynau a ofynnwyd: A yw manylion cofrestredig microsglodyn eich cath yn gyfredol? / Pa rai o'r manylion microsglodyn canlynol sydd yn gyfredol?

# Cyflyrau iechyd ac anafiadau[19]


Mae 79% o berchnogion cathod yn dweud nad oes gan eu cath unrhyw gyflyrau iechyd sydd wedi cael diagnosis, sy'n gynnydd ers y llynedd (71%), ond yn unol â 2021 (79%).

O'r cathod hynny yng Nghymru sydd â chyflwr sydd wedi'i ddiagnosio, gordewdra a chlefydau deintyddol yw'r rhai mwyaf cyffredin o hyd (gordewdra: 3%, clefyd deintyddol: 2%). Fodd bynnag, mae data'r adroddiad yn dangos bod y cyflyrau hyn yn llawer llai cyffredin na data gwyddonol a gyhoeddwyd, sy'n awgrymu bod clefyd deintyddol a gordewdra mewn gwirionedd yn effeithio ar tua 15% ac 11% o gathod, yn y drefn honno20. Gallai hyn fod yn arwydd o fwlch addysg, lle nad yw perchnogion yn cydnabod y cyflyrau hyn na'u harwyddocâd ac, unwaith eto, mae'n tynnu sylw at bwysigrwydd ymweliadau rheolaidd â milfeddyg.

Dywedodd 26% o berchnogion cathod Cymru fod eu cathod wedi cael eu hanafu ers iddynt fod yn berchen arnynt. Y rheswm mwyaf cyffredin dros anaf yw ymladd gyda chathod eraill y tu allan i'r aelwyd (10% o'r holl gathod)[21].

# Diet a phwysau'r corff[22]

**Canfyddiadau perchnogion Cymru o bwysau corff eu cathod**




Mae llai o berchnogion Cymru yn meddwl bod eu cathod o dan bwysau o gymharu â'r llynedd (2022: 40%), gyda nifer o'r pwyntiau canran hyn yn symud i'r categori 'cyflwr corff delfrydol' (2022: 25%).

Wrth edrych yn benodol ar ordewdra, rhoddodd 3% o berchnogion Cymru eu cathod yn y categorïau uchaf ar gyfer cyflwr y corff (8/9 a 9/9), sy'n is na'r DU drwyddi draw (4%), ond roedd yn cyfateb i gyfran y perchnogion o Gymru a ddywedodd fod eu cathod wedi cael diagnosis ffurfiol o ordewdra. Fodd bynnag, rhaid pwysleisio bod y data hwn yn cael ei adrodd gan berchnogion. Mae ffigurau milfeddygol ar gyfer gordewdra ymysg cathod oddeutu 11.6%[20], ond nodir hefyd fod gordewdra yn debygol o gael ei dan-adrodd mewn milfeddygfeydd gofal sylfaenol[23].

19 Cwestiwn a ofynnwyd: A yw eich cath wedi cael diagnosis o rai o'r materion / cyflyrau iechyd canlynol?

20 O'Neill DG, Gunn-Moore D, Sorrell S, et al. Commonly diagnosed disorders in domestic cats in the UK and their associations with sex and age. *Journal of Feline Medicine and Surgery*. 2023;25(2). doi:10.1177/1098612X231155016.

21 Cwestiwn a ofynnwyd: Ers cael eich cath, ydy eich cath erioed wedi cael ei hanafu?

22 Cwestiwn a ofynnwyd: Pa un o'r disgrifiadau a'r delweddau canlynol fyddech chi'n dweud sy'n adlewyrchu eich cath orau o ran eu maint?

23 O'Neill DG, Church DB, McGreevy PD, Thomson PC, Brodbelt DC. Prevalence of disorders recorded in cats attending primary-care veterinary practices in England. *Vet J*. 2014;202(2):286-291. doi:10.1016/j.tvjl.2014.08.004.

# Methu fforddio'r milfeddyg?

Yn bryderus, mae'n ymddangos bod yr argyfwng costau byw yn effeithio ar iechyd a lles cathod drwy leihau mynediad at ofal milfeddygol hanfodol i gathod. Yn ddealladwy, mae hyn yn cael ei deimlo'n fwy gan y rheini y mae heriau costau byw, fel aelwydydd incwm is, wedi effeithio fwyaf arnynt.

**Nid yw 9% o gathod yng Nghymru wedi'u cofrestru gyda milfeddyg[8]**

**12% ar gyfer y rheini sydd yng ngradd economaidd-gymdeithasol C2DE**

**53%**

o berchnogion Cymru sydd yng ngradd economaidd-gymdeithasol C2DE yn mynd â'u cath at y milfeddyg yn rheolaidd bob blwyddyn (45% ar gyfer holl berchnogion cathod Cymru)[9]

**29%**

o berchnogion yng Nghymru yn dweud fod y gost yn eu hatal rhag ymweld â'r milfeddyg mor aml ag y byddent yn dymuno (i fyny o 20% yn 2022)[10]

**Uwch:**

**ar gyfer gradd economaidd-gymdeithasol C2DE – 35%** (24% yn 2022)

**ar gyfer y rheini sy'n dweud eu bod yn poeni am dalu'r biliau – 49%** (25% yn 2022)

**Dywedodd 18% o berchnogion yng Nghymru mai'r rheswm pam fod eu cathod yn dal heb eu hysbaddu yw nad ydynt yn gallu fforddio gwneud hynny[15].**

Mae hyn yn golygu mai cost yw'r rheswm mwyaf cyffredin bod cathod yn parhau heb eu hysbaddu yng Nghymru – sy'n uwch na 'dydy fy nghath ddim yn mynd y tu allan', sef y rheswm mwyaf cyffredin yn y DU gyfan eleni, a'r rheswm mwyaf cyffredin yng Nghymru yn 2022. Mae hon yn enghraifft glir o sut mae pryderon ariannol aelwydydd yn effeithio fwyfwy ar ddarparu gofal milfeddygol i gathod yng Nghymru.

Yn gyffredinol, mae 29% o berchnogion cathod Cymru yn poeni am sut byddent yn talu biliau milfeddygol pe bai eu cathod yn mynd yn sâl neu yn cael eu hanafu, gan godi i dros hanner (51%) o'r rheini sy'n dweud bod yr argyfwng costau byw wedi effeithio'n negyddol arnynt. Mae hyn yn fwy na'r DU drwyddi draw (25% a 50%, yn y drefn honno)[24].

Wrth i fwy a mwy o gartrefi gael trafferth talu costau bob dydd, mae Cats Protection yn edrych ar ffyrdd y gall helpu perchnogion i gael gafael ar wasanaethau milfeddygol hanfodol. Bydd cynllun ysbaddu â chymhorthdal Cats Protection yn galluogi mynediad at ysbaddu a microsglodynnu i gathod lle gall cyllid fod yn rhwystr. Mae Cats Protection hefyd yn cyfeirio pobl at sefydliadau sy'n darparu mynediad at glinigau milfeddygol â chymhorthdal i berchnogion cymwys. Fodd bynnag, bydd adnoddau elusennol yn gyfyngedig, ac yn wyneb yr argyfwng costau byw, mae'n debygol na fydd pob perchennog yn gallu cael mynediad at glinig sy'n cael cymhorthdal.

24 Cwestiwn a ofynnwyd: I ba raddau ydych chi'n cytuno â'r datganiadau canlynol?

Mae canfyddiadau o arolwg diweddar o'r proffesiwn milfeddygol yn awgrymu bod penderfyniadau gan filfeddygon a chleientiaid yn dod yn fwy dibynnol ar gyfyngiadau ariannol ers i'r argyfwng costau byw ddechrau. Mae Cats Protection yn datblygu adnoddau addysg ar gyfer milfeddygon i'w cefnogi gyda phenderfyniadau clinigol a thrafodaethau ynghylch cyllid gyda pherchnogion sy'n cael trafferth, er mwyn iddynt allu cynnig ystod ehangach o opsiynau triniaeth.

Mae addysgu perchnogion presennol a darpar berchnogion i'w helpu i ddeall costau realistig gofal milfeddygol hefyd yn bwysig, gan ei fod yn caniatáu i berchnogion gyllidebu ar gyfer costau yn unol â hynny, ac yn tynnu sylw at fanteision cael yswiriant anifeiliaid anwes. Bydd hefyd yn helpu i dawelu meddwl ac annog rhai perchnogion sydd efallai'n credu bod triniaethau milfeddygol yn ddrutach nag y maent mewn gwirionedd.





Er mwyn helpu i sicrhau mynediad parhaus at wasanaethau milfeddygol pwysig i bob aelwyd, mae Cats Protection wedi ymrwymo i ddarparu cymorth wedi'i dargedu i berchnogion cathod sydd ar incwm isel er mwyn goresgyn rhai o'r rhwystrau sy'n atal mynediad milfeddygol at ddiben ysbaddu a microsglodynnu.

Fodd bynnag, mae'n hanfodol bod cefnogaeth yn cael ei chyfeirio'n dda at berchnogion cathod yng Nghymru, gan fod 55% o'r rheini sy'n dweud eu bod wedi cael eu heffeithio'n negyddol gan y cynnydd mewn costau byw yn dweud nad ydynt yn ymwybodol o'r cymorth sydd ar gael iddynt, ac mae 16% pellach yn dweud nad ydynt yn gwybod ble i fynd i ddod o hyd iddo[25].

Mae hyn yn tynnu sylw at bwysigrwydd timau cyfathrebu sydd wedi'u cydlynu'n dda ar gyfer mudiadau elusennol a mudiadau cymorth arall.

"Mae Cats Protection yn falch o fod wedi lansio cynllun ysbaddu â chymhorthdal newydd ar gyfer aelwydydd incwm isel o fis Ebrill 2023 ymlaen. Ar ôl arolygu'r ffordd orau o wneud i'r cynllun weithio i filfeddygon, gwnaethom gynyddu gwerth y daleb (a byddwn yn ei hadolygu'n flynyddol), ac mae gennym un cynllun cenedlaethol ar waith, sy'n cynnwys lleddfu poen ar ôl llawdriniaeth, coler 'buster' a microsglodynnu lle bo angen. Drwy helpu mwy o gathod i gael eu hysbaddu (a'u microsglodynnu), ein nod yw lleihau nifer y torllwythi diangen, sydd nid yn unig yn niweidiol i les cathod, ond sy'n gallu rhoi straen ariannol ychwanegol ar y rheini y mae'r argyfwng costau byw eisoes yn effeithio arnynt fwyaf. Diolchwn i'r holl filfeddygfeydd sydd eisoes wedi cofrestru, am ein helpu i weithio tuag at hyn."

**Jane Clements, Pennaeth Ysbaddu, Cats Protection**




25 Cwestiwn a ofynnwyd: Ydych chi'n ymwybodol o unrhyw gymorth sydd ar gael i helpu gyda chostau cynyddol gofalu am eich cath/ cathod?

# Gofal, lles ac ymddygiad cathod

## Ffynonellau gwybodaeth am ofal cathod

Mae nifer y perchnogion cathod yng Nghymru sy'n honni eu bod wedi gwneud gwaith ymchwil cyn cael eu cath wedi gostwng o 38% y llynedd, i 31% eleni. Mae nifer y perchnogion cathod yng Nghymru sy'n honni eu bod yn gwneud llawer o waith ymchwil yn gyffredinol am sut i ofalu am eu cathod hefyd wedi gostwng, o 35% i 29%[26].

**Ym mhle mae pobl yng Nghymru yn ceisio cyngor am gathod?[27]**





Mae perchnogion cathod Cymru yn troi fwyfwy at eu milfeddygon am gyngor, sef y ffynhonnell wybodaeth a ddewisir amlaf o hyd27. Mae'n ymddangos bod hyn yn trosi'n berchnogion sy'n teimlo'n fwy gwybodus, gan fod 66% o berchnogion cathod Cymru sy'n ymweld â'r milfeddyg yn rheolaidd yn teimlo'n hyderus eu bod yn gwybod beth sydd orau i'w cath, o gymharu â dim ond 54% o berchnogion Cymru nad ydynt byth yn ymweld â'r milfeddyg[28]. Fodd bynnag, mae'r hyder hwn yn uwch ymysg perchnogion o Gymru na'r DU drwyddi draw (DU: 63% ar gyfer ymwelwyr rheolaidd â milfeddyg, a 44% ar gyfer y rheini sydd byth yn mynd at y milfeddyg).

26 Cwestiwn a ofynnwyd: I ba raddau ydych chi'n cytuno ar y datganiad canlynol (Nes i lawer o ymchwil cyn cael fy nghathod / Rwy'n ei chael hi'n hawdd dod o hyd i wybodaeth ddibynadwy ac o ansawdd am gathod)? Roedd y ddau brif fwlch ymateb yn cynnwys (1 = cytuno'n gryf, 7 = anghytuno'n gryf)

27 Cwestiwn a ofynnwyd: Pa rai o'r canlynol fyddech chi'n eu gwneud pe baech chi'n chwilio am wybodaeth neu gyngor am eich cath/cathod?

28 Cwestiwn a ofynnwyd: Rwy'n hyderus iawn fy mod i'n gwybod beth sydd orau i fy nghath / fy nghathod: I ba raddau ydych chi'n cytuno neu'n anghytuno â'r datganiadau canlynol am gael cath/cathod?

**Mae perchnogion hŷn o Gymru yn fwy tebygol o ofyn am wybodaeth am eu cathod gan filfeddyg**[27]





Mae perchnogion o Gymru a gafodd eu cathod yn ystod y 12 mis diwethaf yn llai tebygol o droi at eu milfeddygon fel ffynhonnell wybodaeth am eu cathod (48%), ond maent yn llawer mwy tebygol o droi at y cyfryngau cymdeithasol (29%), o gymharu â pherchnogion cathod eraill.



Mae chwilio ar y rhyngrwyd a chwilio ar y cyfryngau cymdeithasol am wybodaeth am gathod yr un mor boblogaidd ag erioed, gan dynnu sylw pellach at y gofod ar-lein fel ffynhonnell wybodaeth gynyddol bwysig.

YouTube yw'r ffynhonnell fwyaf poblogaidd o hyd o ran gwybodaeth am gathod ar gyfer perchnogion cathod o Gymru ar gyfryngau cymdeithasol, ond nid yw'r llwyfan fideo, TikTok, wedi gweld yr un cynnydd mewn poblogrwydd yng Nghymru ag y mae wedi profi yng ngweddill y DU yn gyffredinol fel ffynhonnell wybodaeth am gathod[29].

**Llwyfannau cyfryngau cymdeithasol fel ffynonellau gwybodaeth am gathod yng Nghymru[29]**





"Gyda mwy o berchnogion yn chwilio am wybodaeth am eu cathod ar-lein, ac yn enwedig ymysg ein perchnogion iau, mae cyfle pwysig i filfeddygon ddefnyddio'r llwyfannau hyn i addysgu'r cyhoedd. Er gwaethaf tueddiadau pryderus tuag at gynnwys am gathod sy'n canolbwyntio ar fridio eithafol ac arferion lles gwael, gall milfeddygon wrthbwyso hyn drwy herio camwybodaeth a darparu gwybodaeth ffeithiol, diddorol a gwerthfawr sydd, yn ei dro, yn grymuso perchnogion i wneud y gorau dros eu cathod."

**Dr Ben Simpson-Vernon MRCVS, milfeddyg a seren TikTok (Ben the Vet)**



29 Cwestiwn a ofynnwyd: Pa rai o'r canlynol, os o gwbl, ydych chi'n eu defnyddio/ymweld â nhw'n rheolaidd wrth chwilio am y cynnwys canlynol sy'n ymwneud â chathod? (Gwybodaeth/cyngor).

**Mae Cats Protection yn poeni fwyfwy am gynrychiolaeth cathod ar-lein, yn ogystal â fideos y gallai pobl feddwl sy'n 'hwyl' ond sy'n achosi gofid i gathod. Mae'r elusen yn awyddus i weithio gyda chwmnïau sy'n hysbysebu ar-lein gan ddefnyddio cathod i sicrhau nad ydynt yn cael eu cynrychioli mewn ffordd a allai fod yn niweidiol i'w lles ac nad yw bridiau eithafol yn cael eu defnyddio.**



**Y pum prif weithgaredd sy'n gysylltiedig â chathod y mae perchnogion o Gymru yn ymgymryd â nhw sawl gwaith yr wythnos neu fwy[30]**

Siarad am gathod gyda fy ffrindiau/teulu

**44%**

Gwylio fideos doniol neu giwt o gathod ar-lein

**33%**

Edrych ar luniau doniol neu giwt o gathod ar-lein

**33%**

Edrych ar broffiliau cyfryngau cymdeithasol sy'n gysylltiedig â chathod:

**24%**

Gwylio fideos gwybodaethol am gathod ar-lein

**12%**

Yn gyffredinol, Facebook ac YouTube yw'r ffynonellau cyfryngau cymdeithasol mwyaf poblogaidd ar gyfer cynnwys 'hwyliog' sy'n ymwneud â chathod (FB: 43%, YT: 39%), ond ar gyfer perchnogion iau, 18-24 oed yng Nghymru, TikTok yw'r llwyfan cymdeithasol mwyaf poblogaidd o bell ffordd (53%, holl berchnogion cathod Cymru: 28%)[31].

30 Cwestiwn a ofynnwyd: Pa mor aml ydych chi'n tueddu gwneud y canlynol? Roedd y ddau brif fwlch ymateb yn cynnwys (o leiaf unwaith y dydd, sawl gwaith yr wythnos).

31 Cwestiwn a ofynnwyd: Pa rai o'r canlynol, os o gwbl, ydych chi'n eu defnyddio/ymweld â nhw'n rheolaidd wrth chwilio am y cynnwys canlynol sy'n ymwneud â chathod? (cynnwys hwyliog).

# Amgylchedd cathod


## Cathod sy'n byw dan do o'u cymharu â chathod awyr agored

**Trefniadau byw cathod**[32]

**Maen nhw'n byw tu fewn a thu allan**: 67%
(59% yn 2022)

**Maen nhw bob amser yn aros tu fewn**: 31%
(58% yn 2022)

**Maen nhw bob amser yn aros tu allan**: 2%
(3% yn 2022)




Mae cyfran y cathod yng Nghymru sydd â mynediad at le yn yr awyr agored wedi cynyddu (69%, 62% yn 2022) ac mae'n uwch na'r DU drwyddi draw (63%). Mae gan Gymru gyfran is o gathod sy'n byw dan do yn unig o gymharu â'r DU drwyddi draw (37%).

Mae bron i hanner (48%) perchnogion cathod Cymru yn rheoli mynediad eu cathod i'r byd tu allan – gan adael eu cathod i mewn ac allan yn ôl yr angen. Mae 12% yn defnyddio fflap cath gyda swyddogaethau wedi'u hymgorffori sy'n caniatáu iddynt (fel y perchennog) reoli mynediad eu cathod – naill ai gydag amserydd neu agoriad un cyfeiriad. Mae gan 20% fflap cath sylfaenol, sy'n cynyddu'r tebygolrwydd bod gan eu cathod ymreolaeth dros eu mynediad i'r byd tu allan[33].

Yn ogystal â fflapiau cathod sy'n cael eu rheoli, mae mesurau eraill sy'n gallu helpu cathod i aros yn fwy diogel y tu allan yn cynnwys gwneud eu gofod allanol mor ysgogol â phosibl a gosod ffensys arbennig i'w hatal rhag crwydro'n rhy bell (yn ogystal ag atal ymweliadau gan gathod eraill) a'u hyfforddi i ddod pan gânt eu galw. Er mwyn hwyluso aduno cyflym os byddant yn mynd ar goll, mae microsglodynnu yn hanfodol.

32 Cwestiwn a ofynnwyd: Pa un o'r canlynol sydd fwyaf perthnasol i'ch cath?

33 Cwestiwn a ofynnwyd: Ym mha ffyrdd mae gan eich cath fynediad o ran mynd allan / dod i mewn?

"I ffynnu, mae angen i gathod deimlo bod ganddynt ddigon o ymreolaeth a dewis o ran eu hamgylchedd, yn ogystal â mynediad at ffynonellau ysgogol cadarnhaol. Mae hyn yn cynnwys y cyfle i archwilio, ymgysylltu â'u greddfau ysglyfaethus a chael mynediad at rywle tawel, i ffwrdd o'r gweithgareddau dyddiol nodweddiadol a'r aflonyddwch sy'n digwydd yn y cartref. Mae rhoi'r opsiwn i gathod fentro yn yr awyr agored i ardal ddiogel ac ysgogol yn ffordd dda o roi'r profiadau pleserus a'r ymdeimlad o ymreolaeth iddynt, ac mae'n galonogol gweld bod gan y rhan fwyaf o gathod yr adroddir arnynt yn yr arolwg fynediad at yr awyr agored. Er bod risgiau bob amser yn gysylltiedig â chathod yn mynd allan, mae hefyd yn galonogol nodi'r nifer isel iawn o anafiadau a gofnodwyd oherwydd damweiniau ar y ffordd a pheryglon eraill yn yr awyr agored."



**Dr Lauren Finka PhD, Gwyddonydd Lles Cathod, Cats Protection**



"Mae ysgogiad dyddiol, fel defnyddio teclynnau bwydo ('puzzle feeders') neu chwarae priodol, yn gallu arwain at fanteision aml-ffactor i bob cath, ond yn enwedig i gathod dan do yn unig a chathod sy'n byw mewn aelwydydd aml-gath. Mae'r gweithgareddau hyn yn helpu i ysgogi'r gath yn gorfforol ac yn feddyliol, ar yr un pryd â chyfrannu at ryddhau hormonau 'cadarnhaol'. Mae darparu gweithgareddau sy'n diwallu etholeg ein cathod domestig orau yn sicrhau bod un o'u prif anghenion lles yn cael ei ddiwallu. Gall hyn fod yn rhan o ddatrysiad ehangach sydd ei angen i geisio sicrhau harmoni mewn aelwyd aml-gath. Hefyd, ni ddylid tanbrisio gwerth gofod fertigol. Mae galluogi cathod i ddringo'n uchel ac osgoi ei gilydd wrth symud o gwmpas yn amhrisiadwy."



**Daniel Warren-Cummings, Swyddog Ymddygiad, Cats Protection**

## Cathod yn y nos[34]

I'r cathod hynny yng Nghymru sydd â mynediad i'r awyr agored, mae 43% yn gallu mynd a dod yn rhydd gyda'r nos – mwy na'r DU drwyddi draw (39%) – ond mae dros hanner (51%) perchnogion cathod Cymru yn cadw eu cathod i mewn dros nos.

Mae Cats Protection yn argymell bod cathod yn cael eu cadw i mewn dros nos, er mwyn lleihau'r risg o anaf o ddamweiniau ffordd, ymladd gyda chathod / anifeiliaid eraill a hela bywyd gwyllt. Y rheswm am hyn yw bod cathod yn fwyaf bywiog yn ystod y cyfnos a'r wawr, gan ddewis yr amser hwn i hela, archwilio a mentro i diriogaethau cathod eraill.

## Atal cathod rhag niwed

**Mae 26% o gathod Cymru wedi cael eu hanafu ers eu bod yng ngofal eu perchennog[21]**

**Nid yw 49% o berchnogion cathod Cymru yn ymwybodol bod liliïau'n wenwynig i gathod, sy'n llai na'r DU (53%), er bod hynny'n golygu bod llawer o gathod Cymru, o bosibl, mewn perygl o hyd[35]**

Mae gwenwyndra liliïau'n digwydd pan fydd cath yn bwyta unrhyw ran o'r planhigyn, gan gynnwys paill sy'n glynu at got y gath, ac yna'n cael ei llyfu wrth i'r gath olchi ei hun. Gall y tocsinau achosi i'r arennau fethu, sydd yn aml yn gallu bod yn angheuol. Yn ddelfrydol, dylai perchnogion gyfyngu'n llwyr ar fynediad eu cathod at liliïau, ond os bydd gwenwyndra lili yn digwydd, dylid cyrchu gofal milfeddygol ar unwaith, gan y gall triniaeth gyflym atal methiant yr arennau.

Yn ogystal â gweithgarwch parhaus yn y cyfryngau a'r cyfryngau cymdeithasol, mae Cats Protection yn galw ar gwmnïau sy'n gwerthu liliïau i wella labeli rhybudd, ac mae wedi cynhyrchu canllawiau ar gyfer perchnogion cathod am beryglon liliïau, a phlanhigion eraill, i gathod.

Mae ar gael i'w weld yn **www.cats.org.uk/lilies**

34 Cwestiwn a ofynnwyd: A oes gan eich cath fynediad i'r awyr agored yn ystod y nos?

35 Cwestiwn a ofynnwyd: Pa rai o'r blodau poblogaidd canlynol, os o gwbl, ydych chi'n ymwybodol eu bod yn wenwynig i gathod?

## Byw gydag anifeiliaid anwes eraill

Mae gan 40% o aelwydydd Cymru sy'n berchen ar gath fwy nag un gath, sy'n fwy na'r DU drwyddi draw (33%)1. Mae 42% o berchnogion cathod Cymru hefyd yn berchen ar gi – ychydig mwy na'r DU drwyddi draw (39%)[36].

Nid yw cathod yn fodau 'cymdeithasol', fel cŵn a phobl – nid oes angen iddynt, o reidrwydd, gael cwmni i sicrhau bod eu hanghenion emosiynol yn cael eu diwallu. Oherwydd hyn, gall anifeiliaid anwes eraill (yn enwedig cathod eraill) yn y cartref achosi straen, ac felly rhaid i berchnogion gymryd camau i sicrhau bod y ddarpariaeth adnoddau a'r lleoliad yn ddigonol ar gyfer pob cath yn y cartref, yn ogystal â bod yn ymwybodol o arwyddion o straen mewn cathod. Mae un gath, neu bâr o gathod sydd wedi bondio, yn ddelfrydol i aelwydydd er mwyn osgoi problemau cymdeithasol.

Y cyngor arfer gorau ar gyfer aelwydydd aml-gath yw sicrhau bod adnoddau'n cael eu darparu ar gyfer cathod ar gyfradd sylfaenol o 'un i bob cath, ac un ychwanegol'. Mae'r ffigurau ar gyfer adnoddau pwysig fel powlenni dŵr a blychau gwasarn, yn dangos bod y gymhareb adnoddau a argymhellir hon yn llai tebygol o gael ei diwallu mewn aelwydydd aml-gath, lle mae'r angen mwyaf. Mae hyn yn creu problem lles bosibl, gan gynyddu'r risg o gathod dan straen a'r potensial ar gyfer ymladd ar yr aelwyd – rhywbeth yr adroddwyd ei fod wedi arwain at anafiadau i 3% o holl gathod Cymru a 4% o gathod dan do yn unig yng Nghymru[21].

**Nifer yr adnoddau, fesul cath, yng Nghymru ar gyfartaledd[37]**

| | 2023 | 2022 | 2021 | 2023 | 2022 | 2021 | 2023 | 2022 | 2021 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Powlenni bwyd** | **2.4** | 3.9 | 2.3 | **3.0** | 3.2 | 2.8 | **4.8** | 5.1 | 4.4 |
| **Powlenni dŵr** | **1.9** | 3.5 | 1.7 | **2.4** | 2.4 | 2.0 | **2.9** | 3.3 | 2.6 |
| **Blychau gwasarn** | **1.3** | 3.1 | 1.2 | **1.7** | 1.8 | 1.5 | **2.7** | 2.6 | 2.1 |
| **Pyst crafu** | **1.7** | 3.3 | 1.5 | **2.3** | 2.2 | 1.9 | **2.4** | 2.2 | 2.0 |
| **Gwelyau cathod** | **1.8** | 3.5 | 1.8 | **2.3** | 2.6 | 2.2 | **3.5** | 3.8 | 3.5 |
| **Mannau cuddio** | **2.5** | 4.1 | 2.2 | **3.1** | 3.4 | 2.9 | **4.0** | 4.2 | 3.4 |

Mae'r ddarpariaeth adnoddau ar gyfer cathod yng Nghymru, i raddau helaeth, yn dilyn yr un patrwm â'r DU drwyddi draw, ond yn yr un modd â'r data ar gyfer y DU gyfan, mae'n tynnu sylw at rai diffygion – yn enwedig mewn aelwydydd aml-gath.

36 Cwestiwn a ofynnwyd: Oes gennych chi unrhyw un o'r anifeiliaid anwes isod (yn byw gyda chi) ar hyn o bryd?

37 Cwestiwn a ofynnwyd: Faint o'r canlynol, os o gwbl, sydd gennych yn eich cartref ac sydd ar gael ar hyn o bryd i'ch cath/cathod eu defnyddio ar unrhyw un adeg?

# Ymddygiad a straen

Gall ymddygiad fod yn rhywbeth cymhleth i'w ddadansoddi, gyda chryn dipyn o orgyffwrdd rhwng ymddygiad 'normal', ac ymddygiad sy'n awgrymu bod cath o dan straen. Weithiau, mae ymddygiad 'normal' y mae cathod yn ei arddangos yn cael ei ystyried yn broblemus gan eu perchnogion, tra nad yw ymddygiad sy'n awgrymu straen yn cael ei gydnabod neu mae'n cael ei fychanu. Mae hyn yn golygu bod perchnogion yn ffocysu ar yr ymddygiadau anghywir fel rhai sy'n peri pryder, a'r effeithiau canlyniadol posibl ar gathod a allai fod yn profi straen.

**Mynychder a chanfyddiad perchnogion o ymddygiad normal ac ymddygiad sy'n gysylltiedig â straen posibl ymhlith cathod yng Nghymru[38]**

Cyfran y cathod sy'n dangos yr ymddygiad hwn

Ystyrir yn broblem gan berchennog (ar gyfer perchnogion cathod sy'n dangos yr ymddygiad hwn)

| | Cyfran y cathod sy'n dangos yr ymddygiad hwn | Ystyrir yn broblem gan berchennog |
|---|---|---|
| Neidio ar arwynebau gwaith / silffoedd | 46% | 22% |
| Yn crafu dodrefn / carpedi / waliau | 35% | 55% |
| Yn deffro fi / aelodau eraill o'r aelwyd | 31% | 26% |
| Yn dangos ofn tuag at sŵn | 25% | 26% |
| Yn begera am fwyd pan fydda i'n bwyta | 24% | 24% |
| Yn dod â bywyd gwyllt / ysglyfaeth i mewn i'r aelwyd | 23% | 40% |
| Yn rhedeg i ffwrdd oddi wrth westeion yr aelwyd | 22% | 20% |
| Yn chwilota am fwyd / dwyn bwyd sydd wedi'i adael allan | 14% | 36% |
| Ddim yn cyd-dynnu / ymladd gyda chathod eraill yn yr aelwyd | 11% | 43% |
| Yn cuddio o amgylch y tŷ am gyfnodau hir | 10% | 15% |
| Yn baeddu y tu allan i'w focs baw | 8% | 68% |
| Yn sgrechian / mewian | 8% | 27% |
| Yn cnoi gwifrau / gwefrwyr | 8% | 61% |
| Yn rhedeg i ffwrdd oddi wrtha i / oedolion eraill yn y tŷ | 7% | 42% |
| Yn pi-pi y tu allan i'w focs baw | 7% | 73% |
| Yn 'marcio' pi-pi y tu allan i'w focs baeddu | 5% | 72%* |
| Yn ymddwyn yn ymosodol tuag at oedolion yn y tŷ | 5% | 57%* |
| Ddim yn cyd-dynnu / ymladd gyda fy anifeiliaid anwes eraill (nid cathod) | 5% | 43%* |
| Yn ymddwyn yn ymosodol tuag at westeion yn y tŷ | 2% | 48%* |
| Yn ymddwyn yn ymosodol tuag at blant yn y tŷ | 2% | 67%* |

*mae maint y sampl yn rhy fach ar gyfer arwyddocâd ystadegol

38 Cwestiynau a ofynnwyd: Gan feddwl am y 12 mis diwethaf, pa rai o'r canlynol mae eich cath yn tueddu i'w gwneud, o leiaf rhywfaint o'r amser? / Pa rai o'r canlynol ydych chi'n ystyried yn ymddygiadau problemus yr hoffech chi eu newid?

Mae'r ymddygiadau sy'n achosi'r problemau mwyaf i berchnogion yn aml yn ymwneud â baeddu yn y tŷ, dinistrio / difrodi eiddo ac ymddygiad ymosodol. Fel arfer, mae rheswm cymhellol dros faeddu'r tŷ ac ymddygiad ymosodol - boed yn fater meddygol, straen a/neu fod anghenion y gath ddim yn cael eu diwallu. Yn aml, mae datrys y broblem sylfaenol er budd y gath yn arwain at ganlyniadau cadarnhaol i bawb.

Mae rhywbeth arall sy'n achosi problemau i berchnogion – crafu – yn ymddygiad normal i gathod hefyd, sy'n cael ei ddefnyddio i farcio eu tiriogaeth a miniogi eu crafangau, ond hefyd i leddfu straen. O ganlyniad, mae darparu allfeydd priodol ar gyfer yr ymddygiad hwn (e.e. pyst crafu) yn bwysig, er mwyn atal yr ymddygiad rhag mynd yn 'ddinistriol'.

Mae'r duedd a ddangosir yn nata'r DU, bod cathod o aelwydydd aml-gath yn fwy tebygol o arddangos ymddygiad sy'n peri'r problemau mwyaf i berchnogion, yn cael ei adlewyrchu yng Nghymru. Mae hyn yn tynnu sylw at yr angen i berchnogion nifer o gathod fod yn ymwybodol, nid yn unig o'r arwyddion posibl o straen mewn cathod, ond hefyd wybod beth yw'r ffordd orau o'i liniaru, fel sicrhau bod digon o adnoddau'n cael eu darparu a'u bod yn cael eu gosod mewn mannau addas, yn ogystal ag ystyried pa mor briodol yw ychwanegu mwy o gathod at yr aelwyd.




## Mae Cats Protection yn credu'n gryf bod newid cadarnhaol yn deillio o addysg barhaus, a dyna pam mae hyn yn sail i gyfran enfawr o'r gwaith a wnawn.

Mae cynlluniau gwersi sy'n seiliedig ar y cwricwlwm ac ymweliadau ag ysgolion, yn ogystal â modiwlau dysgu ar-lein hwyliog, wedi'u hanelu at helpu'r genhedlaeth nesaf i ddeall a gwerthfawrogi cathod. Mae sgyrsiau rhyngweithiol am ddim ar gyfer grwpiau cymunedol yn lledaenu'r gair hwnnw ymhellach, ac mae addysg barhaus ar gyfer gweithwyr milfeddygol proffesiynol yn golygu bod yr ymchwil a'r gwersi a ddysgir, a fydd yn gwella lles cathod, yn cael eu lledaenu i'r bobl sy'n gallu ei weithredu orau.

# Tân gwyllt

Gall tân gwyllt beri gofid mawr i bob anifail, gan gynnwys cathod. Mae 25% o berchnogion cathod Cymru yn dweud bod eu cathod yn dangos ofn amlwg tuag at synau fel taranau neu dân gwyllt38, ac o'r perchnogion cathod sydd wedi gweld eu cathod yn profi tân gwyllt, mae 62% yn dweud eu bod yn cael effaith ar eu cathod[39].

**Effaith tân gwyllt ar gathod yng Nghymru (y 3 prif ymddygiad)[39]**




Mae'r holl ymddygiadau hyn yn arwydd o straen mewn cathod. I gael rhagor o gyngor am dân gwyllt a straen mewn cathod, ewch i **www.cats.org.uk/fireworks**

"Mae angen cydbwysedd rhwng pobl yn cael dathlu adegau allweddol gyda thân gwyllt a'r effeithiau canlyniadol y mae hyn yn eu cael ar fywyd gwyllt, ein hanifeiliaid anwes a phobl eraill. Yn aml, mae natur anrhagweladwy tân gwyllt yn rhan fawr o'r broblem o ran rheoli'r effaith y gallant ei chael ar ein hanifeiliaid anwes. Dyna pam mae Cats Protection yn parhau i alw ar y llywodraeth i gyfyngu ar ddefnydd annisgwyl o dân gwyllt a chyfyngu ar yr uchafswm lefelau sŵn. Byddai hyn yn helpu perchnogion i ragweld arddangosfeydd a chymryd camau priodol, a lleddfu straen pob anifail, gan gynnwys cathod. Mae Cats Protection hefyd yn aelod o weithgor, gydag elusennau lles anifeiliaid blaenllaw eraill, sy'n galw ar y llywodraeth i gynnal adolygiad o ddeddfwriaeth tân gwyllt er mwyn ystyried eu heffaith ar les anifeiliaid."

**Charlotte Broad, Swyddog Eiriolaeth a Chysylltiadau Llywodraeth, Cats Protection**

39 Cwestiwn a ofynnwyd: A yw eich cath yn tueddu i ddangos unrhyw un o'r arwyddion canlynol o straen o ganlyniad i glywed tân gwyllt? Wedi'i hidlo ar gyfer perchnogion sydd wedi gweld eu cathod yn profi tân gwyllt.

# A yw costau byw cynyddol yn achosi i gathod fod o dan fwy o straen?

Fel pobl, gallwn i gyd uniaethu â'r pwysau y mae'r cynnydd mewn costau byw yn ei roi ar fywyd bob dydd, ond a yw cathod yn dioddef effeithiau canlyniadol hefyd?

Mae cathod o gartrefi yng Nghymru sy'n cael trafferthion ariannol yn fwy tebygol o ddangos sawl arwydd o straen. Wrth gwrs, mae'n debyg bod llawer o ffactorau ar waith yma, gan gynnwys y risg o straen i gathod a chanfyddiad y perchennog o arwyddion straen yn ei anifail anwes. Mae'n tynnu sylw eto at y ffaith y bydd cathod o aelwydydd sy'n cael trafferthion ariannol yn debygol o elwa o amrywiaeth o gymorth i'w perchnogion, ond nid dim ond cymorth ariannol. Gallai hyn gynnwys cyngor ar leoli adnoddau ac addysg am achosion straen mewn cathod.

**Cathod yn dangos dros dri o arwyddion o straen[40] o aelwydydd yng Nghymru sy'n:**

dweud bod yr **argyfwng costau byw wedi cael effaith negyddol arnynt**

**26%**

dweud nad yw'r **argyfwng costau byw wedi cael effaith negyddol arnynt**

**19%**

**poeni am dalu'r biliau**

**30%**

**nad ydynt yn poeni am dalu'r biliau**

**19%**

40 Cwestiwn a ofynnwyd: Gan feddwl am y 12 mis diwethaf, pa rai o'r canlynol mae eich cath yn tueddu i'w gwneud, o leiaf rhywfaint o'r amser? (Cyfri'r ffactorau sy'n achosi straen).



# Cwmnïaeth a heriau perchenogaeth

## Pam mae pobl yn cael cathod[41]

Yn fwy nag erioed, mae lles personol yn sbardun enfawr ar gyfer perchnogaeth cathod, tra mai cwmnïaeth, lleihau unigrwydd a lleihau straen yw'r prif resymau pam mae pobl yn dewis bod yn berchen ar gath yng Nghymru (56%, 48% yn 2022).

Mae poblogrwydd rhesymau dros fod yn berchen ar gath, a chynnydd mewn cwmnïaeth a rhyddhad straen fel sylfaen ar gyfer perchnogaeth cathod a welir yng Nghymru, yn dilyn dosbarthiad tebyg iawn i'r data ar draws y DU, gyda rhai eithriadau nodedig. Mae cyfran uwch o berchnogion cathod yng Nghymru yn berchen ar gath oherwydd yr oedd angen i'r gath honno gael ei chymryd i mewn, o'i gymharu â'r DU drwyddi draw (18%), ac er bod anghysondeb clir ymysg perchnogion gwrywaidd / benywaidd ynghylch pwysigrwydd cwmnïaeth a ddangosir gan y data ar draws y DU (36% v 44%), nid yw hyn yn amlwg yng Nghymru.

41 Cwestiwn a ofynnwyd: Beth yw'r prif resymau bod gennych gath/gathod? Caniateir mwy nag un ateb.




**Y prif resymau dros fod yn berchen ar gath yng Nghymru**





**Roedd 91% o berchnogion cathod Cymru yn cytuno eu bod yn ystyried y gath yn rhan o'r teulu – gan ddangos yn glir eu safle pwysig yn yr aelwyd[42]**

42 Cwestiwn a ofynnwyd: I ba raddau ydych chi'n cytuno neu'n anghytuno â'r datganiadau canlynol am gael cath/cathod?

**Pwysigrwydd y berthynas rhwng y perchennog â'r gath[42]**




**Treulio amser gyda'n cathod**





Mae'n ymddangos bod perchnogion o Gymru yn mwynhau perthynas agosach fyth â'u cathod, o gymharu â'r DU drwyddi draw, gyda chyfran uwch o berchnogion yn dweud bod eu cathod yn eu gwneud nhw'n hapus (DU: 73%), eu bod yn meddwl am eu cath pan nad ydynt gyda nhw (DU: 42%) a'u bod yn rhoi anghenion eu cathod o flaen eu hanghenion eu hunain (UK: 38%). Mae perchnogion o Gymru hefyd yn fwy tebygol o chwarae gyda'u cathod bob dydd (DU: 65%) a siarad â'u cathod yn rheolaidd (DU: 72%)[43].

41 Cwestiwn a ofynnwyd: Beth yw'r prif resymau bod gennych gath/gathod? Caniateir mwy nag un ateb.

42 Cwestiwn a ofynnwyd: I ba raddau ydych chi'n cytuno neu'n anghytuno â'r datganiadau canlynol am gael cath/cathod?

43 Cwestiwn a ofynnwyd: Mewn wythnos gyffredin, pa mor aml ydych chi'n gwneud pob un o'r canlynol gyda'ch cath?



## Helpu'r rhai mwyaf agored i niwed

Mae Cats Protection yn deall y berthynas arbennig sydd gan bobl â'u cathod ac yn darparu amrywiaeth o wasanaethau sy'n ceisio cefnogi perchnogion, yn enwedig pan fyddant yn fwyaf agored i niwed.

Mae enghreifftiau'n cynnwys gwasanaeth arloesol Lifeline (sef Paws Protect gynt) – gwasanaeth maethu cathod cyfrinachol, am ddim, i bobl sy'n profi cam-drin domestig – a gwasanaeth cymorth galar Paws to Listen. Mae'r gwasanaeth cyfrinachol, rhad ac am ddim hwn yn rhoi perchnogion sy'n galaru mewn cysylltiad â gwrandawyr gwirfoddol hyfforddedig sy'n barod i gynnig cefnogaeth emosiynol a gwybodaeth ymarferol.

"Bob blwyddyn, mae Adroddiad CATS yn parhau i dynnu sylw at y manteision i bobl o rannu eu bywydau gyda chathod, sy'n darparu cwmnïaeth, ac yn lleihau straen ac unigrwydd i lawer o berchnogion. Fodd bynnag, gwyddom fod marwolaeth anifail anwes yn gallu bod yn dorcalonnus, ac yn rhwystr hyd yn oed i berchnogaeth cathod yn y dyfodol, gan adlewyrchu'r trawma y gall y golled hon ei achosi. Nod Cats Protection yw cefnogi pobl drwy'r daith gyfan o rannu bywyd gyda chath, gan gynnwys yr amser anodd ar ôl colled, ac felly rydym wedi creu ein gwasanaeth Paws to Listen, i gynnig clust i gydymdeimlo ar adeg anodd."

**Catherine Joyce, Arweinydd Tîm Paws to Listen, Cats Protection**

## Cost barhaus cathod

I lawer o berchnogion yng Nghymru, mae'r cynnydd mewn costau byw yn bryder mawr, gyda 12% yn poeni'n ddifrifol am sut y byddant yn diwallu anghenion eu cathod yn y dyfodol44. Dywedodd 7% eu bod eisoes wedi gorfod lleihau eu gwariant ar hanfodion fel bwyd cathod a gwasarn, ac mae 3% wedi gorfod dibynnu ar fanciau bwyd i fwydo eu cathod45. Mae gan 29% o berchnogion yng Nghymru amheuon ynghylch sut byddent yn talu biliau milfeddygol pe bai eu cath yn mynd yn sâl neu wedi'i hanafu, ac mae bron i chwarter (24%) o berchnogion cathod yng Nghymru yn poeni'n fawr am allu talu biliau a chostau byw eraill dros y 12 mis nesaf44, oherwydd chwyddiant a chodiadau mewn cyfraddau llog, ac effeithiau cysylltiedig ar wariant rheolaidd y cartref, fel taliadau morgais.

Mae'n ddiddorol bod helpu i leihau straen yn gyson yn fwy tebygol o fod yn brif reswm dros fod yn berchen ar gathod i bobl sy'n poeni am faterion ariannol. Mae hyn yn arwydd pellach o fanteision bod yn berchen ar gathod i bobl sy'n wynebu heriau mawr bywyd.



**Cyfran y perchnogion o Gymru sy'n berchen ar gath i'w helpu i deimlo dan lai o straen[41]:**

**24%**

**Effeithiwyd yn negyddol gan yr argyfwng costau byw:**

| Do: 30% | Naddo: 15% |
|---|---|

**Pryderu na fyddwch yn gallu talu biliau / costau byw eraill:**

| Do: 30% | Naddo: 15% |
|---|---|

44 Cwestiwn a ofynnwyd: I ba raddau ydych chi'n cytuno â'r datganiadau canlynol?

45 Cwestiwn a ofynnwyd: Wrth feddwl am y 12 mis diwethaf, pa rai o'r isod, os o gwbl, sy'n berthnasol i chi?



## Helpu i leihau'r baich

Mae Cats Protection wedi ymrwymo i helpu perchnogion cathod i barhau i ddiwallu anghenion eu cathod drwy'r cyfnod ariannol anodd hwn, er budd y gath a'r perchennog.

Un enghraifft o hyn yw partneriaeth Cats Protection gyda nifer o sefydliadau elusennol a chorfforaethol i sicrhau bod bwyd cath ar gael i'w ddosbarthu drwy FareShare - elusen fwyaf y DU sy'n brwydro yn erbyn newyn a gwastraff bwyd. Mae'r gynghrair hon eisoes wedi helpu miloedd o gathod i gael eu hamddiffyn rhag y pwysau ariannol y mae eu perchnogion yn eu hwynebu. Mae canghennau a chanolfannau Cats Protection ledled y wlad hefyd yn gweithio mewn partneriaeth uniongyrchol â banciau bwyd a phartneriaid cymunedol i ddarparu bwyd cath i deuluoedd, er mwyn helpu i fwydo eu hanifeiliaid anwes.

Mae Cats Protection hefyd wedi cynhyrchu canllawiau ar sut i ofalu am eich cath wrth wynebu costau byw cynyddol, gan gynnwys gwybodaeth am ein cynllun talebau ysbaddu, sut i helpu i gadw biliau milfeddygol i lawr a chyngor gorau ar gadw costau gofal cathod o ddydd i ddydd mor isel â phosibl.

I gael gafael ar y canllawiau hyn ewch i
**www.cats.org.uk/cost-of-living**

"Mae'r argyfwng costau byw yn broblem enfawr i les cathod, gyda llawer o berchnogion yn wynebu dewisiadau amhosibl wrth i gostau barhau i godi. Ni ddylid gorfodi neb i roi'r gorau i anifail anwes ac ni ddylid gadael unrhyw gath yn llwglyd. Rydym ni'n falch o fod yn gweithio gyda'n cydweithwyr ar draws y sector i sicrhau bod powlenni cathod mewn angen yn llawn."

**Peter Shergold,**
**Pennaeth Gwaith Maes,**
**Cats Protection**



# CATS yng Nghymru, crynodeb



## Cyflwr y sector

- Mae pobl Nghymru yn berchen ar 620,000 o gathod
- Mae 60% o aelwydydd yng Nghymru yn berchen ar un gath; mae 40% yn berchen ar ddwy neu fwy o gathod

## Perchnogaeth cathod yn y DU:

| | Mewn miliynau | | % yr aelwydydd sy'n berchen ar gathod | |
|---|---|---|---|---|
| | 2022 | 2023 | 2022 | 2023 |
| Cyfanswm y DU | 11 | **11** | 26% | **26%** |
| Cymru | 0.6 | **0.6** | 28% | **29%** |
| Lloegr | 9.2 | **9.2** | 26% | **26%** |
| Yr Alban | 0.9 | **0.8** | 24% | **22%** |
| Gogledd Iwerddon | 0.3 | **0.2** | 26% | **21%** |

## Y Farchnad Gathod

- Mae Cymru wedi gweld gostyngiad o 5% yng nghyfran y cathod sydd wedi cael eu mabwysiadu rhwng 2022 ac eleni.
- Mae 65% o boblogaeth cathod yng Nghymru yn fridiau cymysg, mae 22% yn bedigri/bur ac mae 6% yn fridiau croes (nid yw 7% yn gwybod)

## Gofal Milfeddygol

- Dywedodd 27% o berchnogion Cymru eu bod wedi cael trafferth yn cael gafael ar filfeddyg yn ystod y 12 mis diwethaf, i lawr o 42% yn 2022
- Mae Cymru wedi gweld mwy o welliant o ran lleddfu problemau capasiti milfeddygol o gymharu â gweddill y DU (15% o gymharu â gostyngiad o 7%)
- Nid yw 9% o gathod yng Nghymru wedi'u cofrestru gyda milfeddyg (DU: 10%)
- Mae 70% o gathod Cymru yn cael eu brechiadau'n rheolaidd, yn ôl eu perchnogion (DU: 72%)
- Mae 87% o gathod Cymru yn cael eu niwtro (DU: 85%)
- Mae 71% o gathod Cymru yn cael eu microsglodynnu (DU: 73%)
- Gofal milfeddygol a chostau byw:
  - Nid yw 18% o berchnogion cathod Cymru wedi niwtro eu cathod oherwydd pryderon ynghylch y gost (DU: 15%). Dyma'r flwyddyn gyntaf i'r gost fod yn un o'r rhesymau mwyaf cyffredin dros beidio â niwrto
  - Mae 29% o berchnogion cathod Cymru yn poeni am sut y byddent yn talu bil y milfeddyg pe bai eu cath yn mynd yn sâl neu wedi'i hanafu (DU: 25%)

## Gofal, lles ac ymddygiad cathod

- Mae gan 67% o gathod yng Nghymru fynediad dan do ac i'r awyr agored
- Mae gan Gymru gyfran is o gathod dan do yn unig o'i gymharu â'r DU drwyddi draw (37% o'i gymharu â 37%)
- Nid yw 49% o berchnogion Cymru yn ymwybodol bod lilïau'n wenwynig i gathod
- Mae cyfran uwch o aelwydydd aml-gath yng Nghymru nag ar draws y DU drwyddi draw (40% o'i gymharu â 33%)
- Mae darparu adnoddau pwysig mewn aelwydydd aml-gath yng Nghymru yn aml yn llai na'r gyfradd a argymhellir o 'un i bob cath, ac un ychwanegol'

## Cwmnïaeth a heriau perchnogaeth

- Mae 40% o bobl yn cadw cath er mwyn cael cwmni
- Mae 24% yn cadw cath i'w helpu i deimlo'n llai pryderus neu i ymdopi â straen
- Mae 21% yn cadw cath i'w helpu i deimlo'n llai unig
- Pryderon ynghylch costau byw:
  - Mae 12% o berchnogion cathod yng Nghymru yn poeni o ddifrif am sut y byddant yn diwallu anghenion eu cathod yn y dyfodol
  - Dywed 7% o berchnogion cathod yng Nghymru eu bod wedi gorfod lleihau yr hyn maen nhw'n eu gwario ar hanfodion fel bwyd cathod a gwasarn yn ystod y 12 mis diwethaf
  - Mae 3% o berchnogion cathod Cymru wedi gorfod dibynnu ar fanciau bwyd i fwydo eu cath dros y 12 mis diwethaf

# Ble rydym ni'n mynd o fan hyn?

## Neges gan John May, Prif Weithredwr Cats Protection

Rydym yn aml yn sôn am bwysigrwydd gweld y byd drwy lygaid cathod. Yn ei bedwaredd flwyddyn, mae Adroddiad Cathod a'u hystadegau Cymru (CATS) yn parhau i roi cipolwg ychwanegol hanfodol ar ganfyddiadau perchnogion cathod.

Gyda pherchnogion yn wynebu newidiadau a heriau sylweddol dros y blynyddoedd diwethaf, mae angen i ni gael yr wybodaeth ddiweddaraf am sut mae lles cathod yn cael ei effeithio, a gweithio i ddarparu'r cymorth a'r cyngor cywir i'r rheini sydd ei angen.

Mae'r mewnwelediadau o'r adroddiad hwn yn dangos bod heriau byd-eang y blynyddoedd diwethaf yn effeithio ar gathod a'u perchnogion. Ein nod yw defnyddio'r adroddiad hwn, nid yn unig i lywio ein gweithgareddau ymarferol a sicrhau eu bod yn berthnasol i anghenion cathod yng Nghymru, ond hefyd i ddylanwadu ar lunwyr polisïau a rhanddeiliaid allweddol eraill.

Fel elusen lles cathod fwyaf y DU, gyda dros 10,000 o wirfoddolwyr a gweithwyr ledled y wlad, mae Cats Protection mewn sefyllfa dda i ddarparu'r gefnogaeth sydd ei hangen. Rwy'n falch ein bod yn dal i fuddsoddi yn ein rhaglen niwtro, wedi ymgyrchu'n llwyddiannus dros wneud microsglodynnu cathod anwes yn orfodol yn Lloegr, ac yn darparu cymorth wedi'i dargedu i berchnogion i'w helpu drwy'r argyfwng costau byw.

Un o ganfyddiadau cyson Adroddiad CATS yw bod dulliau o gaffael cathod yn newid – mae Cats Protection yma i bob cath, a byddwn yn parhau i ymdrechu i gynnig y cyngor a'r gefnogaeth sydd eu hangen ar berchnogion; ni waeth ble mae perchnogion yn cael eu cathod.

Fodd bynnag, mae'r newid parhaus at fwy o gathod yn cael eu prynu yn sicr yn creu heriau i elusennau lles anifeiliaid, gyda llai o gathod yn cael eu mabwysiadu ar yr un pryd â mwy o berchnogion yn ceisio cael gwared ar eu hanifeiliaid anwes. Bydd Cats Protection yn ceisio tynnu sylw at ei ymchwil a gweithio gyda'r sector ehangach a'r llywodraeth i helpu i fynd i'r afael â'r materion hyn.

Gall y newidiadau yn y farchnad hefyd fod yn achosi problemau sy'n cael effaith niweidiol ar les cathod, fel smyglo cathod ac arferion bridio gwael, felly bydd ein gwaith i siarad dros gathod a sicrhau eu bod yn cael amddiffyniadau digonol wrth reoleiddio yn parhau i fod yn hanfodol wrth i ni geisio cyflawni ein cenhadaeth.

Gweledigaeth Cats Protection yw cymdeithas lle mae pob cath yn cael byw'r bywyd gorau posibl oherwydd eu bod yn cael eu hamddiffyn, eu bod yn cael gofal ac yn cael eu deall gan bawb. Mae canfyddiadau Adroddiad CATS a gwaith ymchwil arall a gynhaliwyd gan Cats Protection yn galluogi gwell dealltwriaeth, fel y gallwn wireddu ein gweledigaeth.



# Gwasanaethau

**Ail-gartrefu cathod** – Ar gyfer y rhai sy'n mabwysiadu cath neu ail-gartrefu cath.

**www.cats.org.uk/contact-us or 03000 12 12 12**

**Cymorth ysbaddu** – Darparu cymorth ariannol ar gyfer ysbaddu i filoedd o bobl bob blwyddyn.

**www.cats.org.uk/neutering**

**Sgyrsiau addysg** – Sgyrsiau am ddim mewn ysgolion (ar sail y cwricwlwm) a grwpiau cymunedol, rhoi cyngor i oedolion a phlant am ymddygiad cathod a pherchnogaeth anifeiliaid anwes cyfrifol.

**www.cats.org.uk/education**

**Gwarcheidwaid Cathod** – Gwasanaeth am ddim sydd â'r nod o roi tawelwch meddwl i berchnogion cathod sy'n pryderu beth allai ddigwydd pe bydden nhw'n marw cyn y gath.

**www.cats.org.uk/catguardians or 01825 741 291**

**Cyngor cyffredinol** – Llinell gymorth i'r rhai sydd â chwestiynau am eu cathod eu hunain, neu gathod yn gyffredinol.

**www.cats.org.uk/contact-us or 03000 12 12 12**

**For further information contact stats@cats.org.uk or visit www.cats.org.uk/stats**

Mae Cats Protection yn elusen gofrestredig rhifau 203644 (Cymru a Lloegr) a sc037711 (Yr Alban).
Cwmni cyfyngedig drwy warant wedi'i gofrestru yng Nghymru a Lloegr (06772997).
Swyddfa Gofrestredig: National Cat Centre, Chelwood Gate, Haywards Heath, Sussex, RH17 7TT

Cyhoeddwyd yr adroddiad hwn ym mis Medi 2023

Diolch i chwaraewyr Loteri Cod Post y Bobl

Supported by players of PEOPLE'S POSTCODE LOTTERY

Awarded funds from POSTCODE ANIMAL TRUST